| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 19 Gorffennaf 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Teitl:** | **1.** Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys 2016/17 (Atodiad 1)<br>**2.** Adroddiad Diweddaru ar Reoli Trysorlys 2017/18 (Atodiad 2) |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys 2016/17 (Atodiad 1) yn sôn am weithgarwch buddsoddi a benthyca'r Cyngor yn ystod 2016/17. Mae hefyd yn rhoi manylion am yr hinsawdd ariannol ar yr adeg honno ac yn dangos sut y cydymffurfiodd y Cyngor â'i Ddangosyddion Darbodus. Mae'r Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys (Atodiad 2) yn rhoi manylion am weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2017/18.

1.2 Mae'r term 'rheoli trysorlys' yn cynnwys gwaith rheoli gweithgareddau benthyca, buddsoddiadau a llif arian y cyngor. Mae tua £0.5bn yn mynd drwy gyfrifon banc y cyngor bob blwyddyn. Swm benthyca'r cyngor heb ei dalu ar 31 Mawrth 2017 oedd £184.73m ar gyfradd gyfartalog o 4.94% ac roedd gan y cyngor £1.2m mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 0.14%.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cytunwyd gan y Cyngor ar 27 Hydref 2009 y dylai'r gwaith o lywodraethu Rheoli Trysorlys fod yn destun archwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Rhan o'r rôl hon yw cael diweddariad ar weithgareddau rheoli trysorlys ddwywaith y flwyddyn ac i adolygu Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2016/17.

### 2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

2.2.1 Bydd tîm rheoli trysorlys yn darparu adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol mewn cydweithrediad â'r amserlen isod:

| Pwyllgor | Dyddiad | Teitl yr Adroddiad | Cynnwys yr Adroddiad |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu Corfforaethol | Ionawr | Diweddariad Rheoli Trysorlys | - Amgylchedd allanol<br>- Risgiau<br>- Gweithgaredd<br>- Rheolaethau<br>- Gweithgarwch yn y Dyfodol |
| Llywodraethu Corfforaethol | Ionawr | Strategaeth Rheoli Trysorlys | - Polisi<br>- Strategaeth<br>- Dangosyddion Darbodus |
| Cyngor | Chwefror | Strategaeth Rheoli Trysorlys | Fel yr uchod. |
| Llywodraethu Corfforaethol | Gorffennaf | Diweddariad Rheoli Trysorlys | Fel Diweddariad Rheoli Trysorlys uchod |
| Llywodraethu Corfforaethol | Gorffennaf | Adolygiad o waith Rheoli Trysorlys | - Adolygiad o weithgareddau Rheoli Trysorlys yn ystod y flwyddyn flaenorol<br>- Perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys |
| Cabinet | Medi | Adolygiad o waith Rheoli Trysorlys | Fel yr uchod. |

2.2.2 Mae Rheoli Trysorlys yn faes cymhleth sy'n cymryd amser i'w ddeall yn llwyr a darperir diweddariadau rheolaidd. Felly, ystyriwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fwy priodol na'r Cyngor i gael y diweddariadau hyn fel y gellid neilltuo cyfanswm yr amser a'r ymrwymiad i'r maes hwn.

2.2.3 Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gael dealltwriaeth o lefel benodol yn y maes hwn a chaiff hyn ei gyflawni drwy ddiweddariadau rheolaidd.

2.2.4 Mae rôl y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- Deall y Dangosyddion Darbodus
- Deall effaith benthyca ar y sefyllfa refeniw
- Deall y cymhellion ehangach sy'n cael effaith ar weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor
- Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd darbodus mewn perthynas â'i weithgareddau Rheoli Trysorlys

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod aelodau'n nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2016/17 a'i fod yn cydymffurfio â'r Dangosyddion Darbodus fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys 2016/17 (Atodiad 1).

3.2 Bod aelodau'n nodi'r adroddiad diweddaru ar y gwaith o Reoli Trysorlys (Atodiad 2).

3.3 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) yn rhan o'i ystyriaethau.

**4 Manylion yr adroddiad**

4.1 Diben Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol (Atodiad 1) yw gwneud y canlynol:

- cyflwyno manylion am gyllid cyfalaf, benthyca, ad-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi yn 2016/17;
- adrodd am oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys;
- cadarnhau cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

4.3 Mae adroddiad diweddaru Rheoli Trysorlys (Atodiad 2) yn rhoi manylion am y canlynol:

- Amgylchedd economaidd allanol
- Risgiau
- Gweithgaredd
- Rheolaethau
- Gweithgarwch yn y Dyfodol

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn galluogi i adnoddau ychwanegol gael eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill y Cyngor.

**6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Amherthnasol.

**7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1 Dylai cynllunio ariannol a phenderfyniadau sicrhau y rhoddir sylw priodol i ofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn benodol, ystyriaeth briodol o effaith hirdymor penderfyniadau ariannol, gan gynnwys y cyfnod ad-dalu a chostau oes gyfan, penderfyniadau buddsoddi cyfalaf, cynigion cyllideb yr aseswyd eu heffaith yn briodol a strategaethau dyledion a buddsoddiad tymor hir (rheoli'r trysorlys). Mae'r egwyddorion pwyll, fforddiadwyedd a chynaladwyedd eisoes wedi'u nodi o fewn gofynion y Cod Darbodus a dylent fod yn sail i gynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau.

7.2 Yng nghyd-destun rheoli'r trysorlys, mae'r gofynion presennol i asesu ac adrodd ar effeithiau hir dymor o fuddsoddi a phenderfyniadau benthyca gan ddefnyddio dangosyddion darbodus a chynllunio dyled hir dymor yn cefnogi nodau cynaliadwyedd y Ddeddf Lles.

7.3 Mae’r adroddiad Asesiad Effaith Lles wedi’i gynnwys yn Atodiad 3 sy’n dangos sut mae strategaeth Rheoli’r Trysorlys effeithlon yn hyrwyddo nodau lles y Ddeddf.

## 8 Pa ymgynghori a wnaed?

8.1 Mae’r Cyngor wedi ymgynghori â’i gynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Rheoli Trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei reoli’n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Mabwysiadodd y Cyngor y Cod Ymarfer diwygiedig SSCCCh ar Reoli Trysorfa (Tachwedd 11) yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2012. Mae'n ofyniad gan y Cod hwnnw i’r pwyllgor hwn gael y wybodaeth ddiweddaraf ar weithgareddau Rheoli Trysorlys ddwywaith y flwyddyn ac adolygu Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol.

9.3 Mae gan y Cyngor ymrwymiadau parhaus i’r Cynllun Corfforaethol a gymeradwywyd yn 2012. Er bod disgwyl i’r cynllun redeg am 5 mlynedd, bydd rhai o’r prosiectau yn dod i ben yn 2020/21 a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyg i ariannu'r buddsoddiad hwn.

9.4 Mae’r Cyngor newydd a benodwyd ym mis Mai yn ymgynghori ar y blaenoriaethau newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022. Bydd angen ystyried unrhyw gynigion newydd yn y strategaeth Rheoli Trysorlys oherwydd mae’n hanfodol fod gan y Cyngor swyddogaeth Rheoli Trysorlys gadarn ac effeithiol sydd yn ategu’r buddsoddiad hwn a phob gweithgaredd arall.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae Rheoli Trysorlys ynddo’i hun yn risg, ond mae’r Cyngor yn monitro ac yn rheoli’r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amhosibl cael gwared ar y risgiau hyn yn gyfan gwbl. Caiff strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y cyngor eu harchwilio’n flynyddol ac roedd adolygiad yr archwiliad mewnol diwethaf yn gadarnhaol ac ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol.

## 11 Grym i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys sy'n penderfynu ar y gofyniad i'r Cabinet dderbyn adroddiad blynyddol ar weithgareddau’r trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.